# Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing





Pecyn Gwybodaeth



# Cynorthwy-ydd Cynllun Awel y Dyffryn





Ionawr 2023

**CYNNWYS**

1. Croeso
2. Cefndir
3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd gyda Grŵp Cynefin
4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person
5. Sut i ymgeisio am y swydd
6. Datganiad Cyfle Cyfartal
7. Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

## 1. Croeso

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

**Cynorthwy-ydd Cynllun Awel y Dyffryn / Scheme Assistant**
**Cytundeb Parhaol**
**Lleoliad gwaith – Awel y Dyffryn, Dinbych**
**14 awr i weithio ar sail rota**

Diolch i chi am holi ynglŷn â'r swydd uchod gyda Grŵp Cynefin ac amgaewn becyn swydd i'ch sylw.

***Cofiwch nodi popeth sy'n berthnasol i'r cais gan gadw mewn cof yr hyn sydd yn y manyleb person.***

1. Darllenwch y disgrifiad swydd a'r manyleb person yn ofalus.
2. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen gais.
3. Peidiwch â chynnwys CV.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflen gais, gan eich atgoffa i'w chyflwyno erbyn **12.00 o'r gloch y prynhawn, dydd Llun, 30 Ionawr 2023.** Neu os hoffech i ni yrru pecyn swydd i chi drwy'r post cysylltwch a'r Tîm Adnoddau Dynol ar 0300 111 2122.

Os yn llwyddiannus i fod ar y rhestr fer am gyfweliad, byddwn yn cysylltu â chi drwy'r cyfeiriad e-bost yr ydych wedi ei nodi ar eich ffurflen gais. Mae angen i chi wirio eich e-byst yn rheolaidd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r swydd, yna mae croeso i chi gysylltu â Manon Jones, Rheolwr Cynllun Awel y Dyffryn ar 0300 111 2122.

**Yn gywir**
**Tîm Adnoddau Dynol**

## 2. Cefndir

### Grŵp Cynefin

Grŵp Cynefin yw'r unig gymdeithas dai sydd â chartrefi ym mhob un o chwe sir Gogledd Cymru a Gogledd Powys. Cafodd y gymdeithas ei sefydlu yn 2014 yn dilyn uniad dwy gymdeithas dai uchel eu parch. Rydym yn berchen ar, ac yn rheoli bron i 4,000 o gartrefi, gan gynnwys cynlluniau tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn. Mae gennym ddiddordeb mewn bron i 800 o dai fforddiadwy eraill drwy gynlluniau cymorth prynu a rhannu ecwiti.

Mae dau is-gwmni hefyd yn weithredol o dan ambarêl Grŵp Cynefin: Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych sy'n gweithio i helpu pobl hŷn drwsio, addasu, cynnal a chadw eu cartrefi fel y gallant barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae gennym hefyd uned fusnes, Gorwel, sy'n darparu gwasanaethau cefnogol ym meysydd camdriniaeth yn y cartref ac atal digartrefedd.

Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i unigolion sy'n awyddus i ddatblygu gyrfa yn y maes tai mewn awyrgylch Gymreig lle mae'r amodau gwaith yn flaengar a chyfeillgar i'r teulu.

### Tai Gofal Ychwanegol

**Annibyniaeth – Cymdogaeth – Cefnogaeth**

Awel y Dyffryn yw pumed cynllun tai gofal ychwanegol Grŵp Cynefin sydd yn ddatblygiad ar y cyd a Chyngor Sir Ddinbych. Mae yn gyfle gwych i bobl hyn fyw yn annibynnol mewn amgylchedd diogel a chartrefol gyda gwasanaethau gofal a chefnogaeth hyblyg. Mae wedi'i leoli ar safle'r hen ysgol, Lôn Ganol, Dinbych, yn agos i siopau a chyfleusterau'r dref.

Mae cynlluniau tebyg wedi bod yn rhedeg ers sawl blwyddyn yn Y Bala, Caergybi, Rhuthun a Phorthmadog. Bydd yn cynnwys 66 o fflatiau (42 ohonynt â dwy ystafell wely a 24 gydag un ystafell wely).

Bydd yr adeilad yn un modern gyda'r technoleg diweddaraf ynddo ac yn cynnwys:

- Bwyty
- Lolfeydd cymunedol
- Gerddi wedi'u tirlunio
- Ystafell therapi a chyfleusterau trin gwallt.
- Ystafell golchi dillad
- Ystafelloedd gweithgareddau
- Ystafell gwesteion ar gyfer ffrindiau a pherthnasau
- Storfa bygi
- Ystafell ymolchi â chymorth
- Cyfleusterau parcio

Mae tai gofal ychwanegol yn wahanol oherwydd:

• Mae pobl yn cael byw yn eu cartref eu hunain – nid mewn cartref preswyl
• Bydd gan pawb drws ffrynt eu hunain – nhw sy’n penderfynu pwy sy’n dod i mewn
• Gall cyplau aros gyda’i gilydd
• Bydd pobl â lefelau anghenion gofal amrywiol yno
• Bydd gwasanaethau gofal ar gael ar safle – os oes eu hangen
• Bydd cymorth ar gael i bobl gadw eu hannibyniaeth
• Bydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol







Enghraifft o fflat dwy loft

**Mwy o wybodaeth**

Ewch ar ein gwefan

## 3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd gyda Grŵp Cynefin

Yn Grŵp Cynefin mae ein hethos yn canolbwyntio ar alluogi, cefnogi a grymuso pobl, ac mae hynny'n cynnwys ein staff. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi tynnu ynghyd ychydig o gyngor ac awgrymiadau defnyddiol ar sut i gwblhau cais am swydd wag gyda Grŵp Cynefin. Rydym am asesu pobl ar eu gorau fel y gallwn gael gwir ddealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl ac i'n sefydliad.

### Y pethau sylfaenol

Mae'n swnio'n syml ond mae'r pethau sylfaenol hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch cais.

- Cwblhewch y cais yn llawn gan roi sylw arbennig i hanes a dyddiadau swyddi. Peidiwch â gadael dyddiadau'n wag - os oes gennych fwlch yn eich cyflogaeth dywedwch wrthym am hyn, ni fydd yn effeithio ar ein hasesiad

- Gwiriwch eich sillafu a'ch gramadeg

- Sicrhewch fod eich cais yn cael ei gyflwyno'n dda yn electronig. Rydym yn asesu cymwysiadau yn gyffredinol ar gyfer llythrennedd cyfrifiadurol a defnyddio Microsoft Office

## Deall y rôl / swydd

Mae ein ffurflen gais yn gofyn am eich dealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl fel y gallwch ffitio o fewn diwylliant a gwerthoedd ein sefydliad.

- **PEIDIWCH â** diystyru na rhuthro'r cwestiynau hyn - maen nhw'n rhan o'n hasesiad
- **PEIDIWCH â** chopïo na llên-ladrata o gynnwys ar-lein neu ein gwefan
- **COFIWCH** ymchwilio i'r pwnc (os oes angen) a ffurfio'ch casgliad eich hun
- **COFIWCH** ymchwilio i ddarpariaethau Grŵp Cynefin a'r is-gwmnïau.

## Datganiad personol - y darn pwysig iawn!

Bydd eich datganiad personol yn cael ei farcio gan grŵp o aseswyr (o leiaf dau o bobl) yn annibynnol yn erbyn manyleb unigolyn y rôl. Y fanyleb person yw'r ddogfen olaf yn y pecyn swydd bob amser a bydd yn cynnwys set o feini prawf hanfodol a ddymunol.

- **GWNEWCH YN SIWR** eich bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol, yn benodol lefel y profiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r lefel ofynnol o brofiad yn cael eu hasesu ymhellach
- **COFIWCH** deilwra'ch cais gan ddarparu manylion ac enghreifftiau ar gyfer pob gofyniad yn y fanyleb person.

Er enghraifft, nid yw'n ddigonol dweud “Rwy'n chwaraewr tîm da”. I sgorio'r mwyafrif o bwyntiau byddwch chi'n rhoi enghraifft i ni o amser lle buoch chi'n gweithio fel rhan o dîm a beth oedd y canlyniad.

- **COFIWCH** gynnwys pob un o ofynion y fanyleb person
- **COFIWCH** gynnwys penawdau a'i gwneud hi'n hawdd i'r asesydd weld pa ofyniad yn y fanyleb person rydych chi'n cyfeirio ato
- Nid yw ychydig o frawddegau yn ddigon o hyd ar gyfer datganiad personol. Bydd datganiad da yn darparu'r holl lefel o fanylion sydd eu hangen arnom ond bydd yn glir ac yn gryno

## Pwynt cyswllt

Mae ein pecynnau swyddi bob amser yn cynnwys pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach. Os ydych chi am ddarganfod mwy am y rôl neu wirio'ch addasrwydd, defnyddiwch y wybodaeth gyswllt a ddarperir.

## 4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

**GRŴP CYNEFIN**

---

**DISGRIFIAD SWYDD**

# CYNORTHWY-YDD CYNLLUN

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Gwasanaethau Gweithrediadau |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Cynllun Awel y Dyffryn |
| **Lleoliad y swydd:** | Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn, Dinbych |

**DIBEN Y SWYDD:**

- Cynorthwyo'r Tîm i sicrhau rheolaeth effeithiol o Awel y Dyffryn a darparu gwasanaeth o ansawdd rhagorol i denantiaid.
- Cydweithio gyda'r Rheolwr i ddelio gydag ymholiadau gan denantiaid, aelodau o'r cyhoedd a theuluoedd yn effeithiol a phrydlon.
- Cydweithio i sicrhau amgylchedd diogel a chynorthwyo i feithrin naws cymunedol a chefnogol.
- Cynorthwyo i ddarparu cefnogaeth briodol i denantiaid i'w galluogi i gynnal eu tenantiaeth yn llwyddiannus, parchu a hyrwyddo eu hawliau, eu dewisiadau a'u hannibyniaeth.
- Cynorthwyo'r Rheolwr i sicrhau cyfranogiad effeithiol i denantiaid.

**CYFRIFOLDEBAU'R SWYDD:**

1. Cysylltu'n rheolaidd gyda'r tenantiaid a delio gyda gydag ymholiadau yn brydlon ac effeithiol.

2. Cynorthwyo i sicrhau ystod eang o weithgareddau cymdeithasol a hwyluso defnydd o'r cyfleusterau cymunedol. Annog a chefnogi trigolion i gymryd rhan ac i drefnu a chynnal gweithgareddau eu hunain.

3. Sicrhau fod y trigolion yn gyfarwydd â'r systemau sydd o fewn eu fflatiau e.e. system wresogi.

4. Sicrhau fod y trigolion yn hyderus i ddefnyddio'r peiriannau golchi a sychu dillad yn y Golchdy.

5. Delio gyda rhai ymholiadau gan denantiaid, darparwyr gofal neu'r cyhoedd yn ystod absenoldeb y Rheolwr Cynllun.

6. Gweithio'n effeithiol fel rhan o'r Tîm Tai â Chefnogaeth gan sicrhau ymgymryd â phob cyfrifoldeb yn unol â pholisïau, gweithdrefnau a safonau gwasanaeth cwsmer y Gymdeithas.

7. Sicrhau fod y mannau cymunedol yn lân a thwt bob amser, gan gynnwys yr holl fannau staff ac ategol.

8. Gweithredu'n unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r Gymdeithas.

9. Adrodd am waith trwsio yn amserol a sicrhau mynediad i weithwyr gyflawni'r gwaith angenrheidiol.

10. Cynorthwyo gyda materion iechyd a diogelwch y Cynllun drwy gydweithio gyda'r Rheolwr Cynllun.

11. Bod y person cyntaf i ymateb i unrhyw argyfwng ar safle. Sicrhau fod gwiriadau diogelwch nosweithiol yn cael eu cwblhau.

12. Yn absenoldeb Gofalwr y Cynllun, glanhau'r mannau cymunedol a sicrhau fod archwiliadau diogelwch wythnosol wedi eu cwblhau yn y cynllun.

13. Mynychu hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r rôl.

14. Sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth ym mhob agwedd o'r gwaith.

| CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL: | |
|---|---|
| **Cyflawni Gwasanaeth** | • Cyflawni'r gwaith i safon uchel, ar amser ac o fewn cyllidebau<br>• Ymateb i gwsmeriaid mewnol ac allanol yn ddi-oed ac yn broffesiynol<br>• Darparu cyngor a chefnogaeth i gyd-weithwyr/cwsmeriaid<br>• Cyflwyno adroddiadau rheolaidd o fewn cyfrifoldebau'r swydd<br>• Cydymffurfio gyda phob polisi ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol |
| **Perfformiad** | • Cyfrannu tuag at gyflawni Safonau Perfformiad Allweddol yn llwyddiannus<br>• Gweithio tuag at nodau ac amcanion Grŵp Cynefin a chefnogi datblygiad y corff |
| **Polisïau a Phrosesau** | • Gweithio yn unol â holl bolisïau a phrosesau Grŵp Cynefin<br>• Sicrhau bod polisïau a phrosesau yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol, rheolaethol ac ymarferion da<br>• Adolygu a chynnig gwelliannau i bolisïau i gefnogi gwelliant parhaus |
| **Ariannol a Chyllidebol** | • Cyfrannu i reoli cyllidebau'n effeithiol |
| **Arall** | • Cynrychioli Grŵp Cynefin yn effeithiol yn allanol trwy gyfleu delwedd broffesiynol a phositif ar bob achlysur<br>• Ymrwymiad i gyfranogi tenantiaid ym mhob agwedd o'r gwaith |

Nid yw'r Disgrifiad Swydd uchod yn rhestr holl gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.

Bydd gofyn i ymgymryd â dyletswyddau eraill o fewn graddfa'r swydd o bryd i'w gilydd mewn trafodaeth â'r Rheolwr.

Adolygir y disgrifiad swydd yn rheolaidd ac yn unol â gofynion y gwasanaeth.

Caiff unrhyw newid a fwriedir ei drafod gyda deilydd y swydd.

| **CYFRIFOLDEBAU PERSONOL**: | |
|---|---|
| Gweithredu yn unol a gwerthoedd Grŵp Cynefin:- | |
| **Agored** | Tryloyw yn y ffordd rydym yn gweithio ag yn gwneud penderfyniadau. Barod i gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. |
| **Arloesol** | Blaengar ac yn barod i herio ein hunain er mwyn darganfod ffyrdd newydd o weithredu a darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid. |
| **Cefnogol** | Gweithio gydag angerdd i gefnogi ein cwsmeriaid, cyd-weithwyr a'n partneriaid yn ogystal â helpu ein cymunedau lwyddo. |
| **Cyflawni** | Gweithredu'n broffesiynol gan ddefnyddio ein harbenigedd, er mwyn sicrhau ffyniant y cwmni a'n pobl. Anelu am welliant parhaus a gwerth am arian bob amser. |
| **Parch** | Parchu ein gilydd ag eraill, hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthod unrhyw ragfarn |

Sicrhau cyfrinachedd, diogelwch a chywirdeb data
Hyrwyddo a gweithredu yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch
Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd o'r gwaith.

**PRIF GYSYLLTIADAU'R SWYDD:**

Mewnol: aelodau o staff Grwp Cynefin

Allanol: tenantiaid, darpar-denantiaid, aelodau o'r cyhoedd, darparwyr gofal /cefnogaeth, asiantaethau gwirfoddol a statudol, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd.

**AMGYLCHEDD GWAITH ARFEROL:**

- Gwaith wrth ddesg mewn swyddfa.
- Mynychu hyfforddiant a cyfarfodydd fel bo angen
- Defnyddio offer penodol e.e. iechyd a diogelwch
- Gweithio ar sail rota.

**MANYLEB PERSON**
**Cynorthwy-ydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol**

***Ystyrir yr holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel dymunol***

**Addysg a Chymwysterau**:

5 TGAU (dymunol)
NVQ Lefel 2 (National Vocational Qualification) (dymunol)
City & Guilds Lefel 2 (dymunol)
Neu'r hyn sy'n cyfateb trwy brofiad

**Profiad Proffesiynol:**

Profiad o ddelio gyda'r cyhoedd ac asiantaethau eraill (dymunol)

**Gwybodaeth a Sgiliau:**
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes tai cymdeithasol (dymunol)
Yn medru gweithio'n dda fel rhan o dîm (dymunol)

Yn meddu ar sgiliau i ddatrys problemau (dymunol)
Yn medru defnyddio Technoleg Gwybodaeth i gyflawni'r gwaith dymunol
Trwydded yrru gyfredol lawn (dymunol)

Yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y lefelau canlynol neu lefelau uwch:

| | |
|---|---|
| Deall: | Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith yn y ddwy iaith rhwng siaradwyr rhugl |
| Siarad: | Yn gallu cynnal sgwrs go fanwl am faterion gwaith arferol yn y ddwy iaith |
| Darllen | Yn gallu darllen a deall deunydd cyffredin a deunydd technegol gyda geiriadur yn y ddwy iaith |
| Ysgrifennu: | Yn gallu drafftio testun arferol gyda chymorth golygyddol yn y ddwy iaith |

**Arwain a Rheoli:**

Yn medru gweithio'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ganlyniadau
Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cwsmer rhagorol
Cynrychioli'r Gymdeithas yn gadarn a phroffesiynol

| **Crynodeb o'r Telerau ac Amodau<br>Cynorthwy-ydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol** | |
|---|---|
| **Math o gytundeb** | Parhaol |
| **Cyflog** | Band B, Pwynt 1 – 5 £19,097 - £21,495 pro rata<br>Telir cyflog ar yr 20fed o bob mis<br>Cynigir y swydd ar bwynt isaf y band |
| **Gwyliau:** | 41 diwrnod y flwyddyn. Rhoddir 41 diwrnod **pro rata** y flwyddyn o wyliau (30 diwrnod craidd, 3 diwrnod yn lle'r cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r 8 gŵyl banc statudol ymlaen llaw)<br>*Nid oes hawl awtomatig am wyliau yn ystod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd na'r gwyliau banc statudol gan bod angen sicrhau rhediad y gwasanaeth yn ystod y cyfnod yma* |
| **Teithio:** | Defnyddiwr car achlysurol |
| **Pensiwn:** | Mae Grŵp Cynefin yn cynnig darpariaeth pensiwn trwy Gynllun Social Housing Pension Scheme (SHPS) |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Oriau gweithio a threfniant gwaith** | 14 awr yr wythnos i weithio ar sail rota |
| **Tâl salwch** | Gweithredir cynllun tâl salwch galwedigaethol. |
| **Absenoldebau Arbennig** | 5 diwrnod pro rata gyda thâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ofalu am ddibynyddion penodol<br>2 diwrnod pro rata gyda thâl i briodi, i symud tŷ, i ysgaru.<br>Amser credyd rhesymol ar gyfer apwyntiadau meddygol.<br>Hyd at 10 diwrnod pro rata gyda thâl ar achlysur o brofedigaeth.<br>Hyd at 3 mis pro rata gyda thâl i ofalu am berthynas agos gydag afiechyd terfynol |
| **Gwiriad GDG (lle'n berthnasol)** | Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ac fel rhan o'r drefn recriwtio staff, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei g/wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>Oherwydd eithrio Grŵp Cynefin o effeithiau'r Ddeddf hon, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatgelu pob trosedd mae ef neu hi wedi ei gael yn euog ohonynt hyd yn oed os yw'r rheini yn rhai a fuasai wedi darfod yn unol â'r Ddeddf ac na fuasai fel arfer yn gorfod cael eu datgelu. Os bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn peidio datgelu trosedd a bod Grŵp Cynefin yn darganfod bod trosedd wedi ei chofnodi yn ei erbyn ef neu hi, bydd y cytundeb cyflogaeth yn cael ei derfynu yn syth ac heb unrhyw benderfyniad pellach. |

## 5. Sut i ymgeisio am y swydd

Cwblhewch y ffurflen gais a'i chyflwyno erbyn **hanner dydd, dydd Llun, 30 Ionawr 2023.** Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi ei derbyn eich cais.

## 6. Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Grŵp Cynefin yn derbyn gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 ynghyd â deddfwriaethau eraill perthnasol a'u goblygiadau.

Mae gweithdrefnau yn eu lle i oresgyn gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae polisïau Grŵp Cynefin yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg.

## 7. Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Gofynnwn yn garedig i chi hefyd gwblhau'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a'i dychwelyd gyda'ch cais os gwelwch yn dda